# GWCT Cymru
# Lleoliad Gwaith Myfyriwr 2025/2026



Laurie Campbell

**Cefndir**

Elusen cadwraeth bywyd gwyllt annibynnol yw'r Game & Wildlife Conservation Trust (GWCT). Mae ei 60 o wyddonwyr yn cynnal gwaith ymchwil yn ymwneud â gêm, rhywogaethau a chynefinoedd cysylltiedig, o'i bencadlys yn Fording Bridge, Hampshire, ac o leoliadau eraill ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae prif feysydd diddordeb yr ymddiriedolaeth yn cwmpasu rheoli tir fferm, rhostiroedd, coetiroedd ac afonydd ar gyfer gêm a bywyd gwyllt.

**Y Lleoliad Gwaith**

Yn 2025/2026 mae gennym un lleoliad gwaith ar gyfer myfyriwr, a fydd yn gweithio o leoliad yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle unigryw i'r myfyriwr gymryd rhan mewn prosiectau yng Nghymru, gan gynnwys arolygon cynefinoedd, dadansoddi data a mapio GIS.

Mae gennym amrywiaeth o brosiectau parhaus ar lawr gwlad yng Nghymru, sy'n cwmpasu llawer o wahanol rywogaethau a chynefinoedd. Bydd cyfleoedd i weithio ar nifer o'r rhain drwy gydol y flwyddyn. Prosiectau ar draws Cymru yn ymwneud â rhywogaethau fel y cyffylog, bras melyn, a'r gylfinir, gyda nifer o brosiectau eraill i ddod gan gynnwys rhywogaethau fel y cudyll coch, ysgyfarnogod, grugiar ddu ac adar hirgoes.

Mae'r tîm bach yn GWCT Cymru yn groesawus a gweithgar, gyda 6 aelod o staff parhaol. Arweinir y tîm gan Gyfarwyddwr Cymru Lee Oliver.

Mae'r lleoliad gwaith hwn yn gyfle gwych i unigolyn gael cipolwg unigryw i mewn i waith cadwraethol a rheoli bywyd gwyllt. Er bod y lleoliad gwaith hwn yn cwmpasu gwaith cadwraethol, buasem hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o gyrsiau sy'n ymwneud â'r cyfryngau a chyfathrebu, gan fod rhan fawr o'n gwaith yn ymwneud â chyfathrebu yn effeithiol.

Rydym angen myfyrwyr hyderus a galluog sydd â diddordeb brwd mewn ecoleg a gweithio yn yr awyr agored. Rhaid i ymgeiswyr allu gweithio oriau hir yn y maes, yn aml (o bosib) mewn amodau heriol, ac felly disgwylir iddynt fod â dillad addas i weithio yn yr awyr agored. Mae sgiliau trin data, adnabod adar a dadansoddi yn ddymunol, ond darperir hyfforddiant llawn.

Dylai myfyrwyr fod â'r sgiliau i allu defnyddio Microsoft Office (Word, Excel, ac ati). Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus weithio i safon uchel, gyda sylw i fanylder yn elfen bwysig iawn. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer defnyddio dronau mewn arolygon ecolegol. Mae nifer o'n prosiectau yn dechrau defnyddio cydnabyddiaeth Deallusrwydd Artiffisial (*Artificial Intelligence - AI*) ar gyfer adnabod delwedd a sain. Unwaith eto, byddai diddordeb neu brofiad o ddefnyddio dronau ac/neu AI yn ddymunol.

Gallwn ddarparu lleoliad gwaith i fyfyriwr weithio am hyd at flwyddyn, neu gyfnod llai os bydd angen. Rydym yn darparu tâl o £131 yr wythnos. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am drefnu llety ar gyfer eu hunain yn ystod y flwyddyn mewn lleoliad wedi ei gytuno ar y cyd â GWCT Cymru, byddwn ni yn cefnogi'r myfyriwr â hŷn.

Mae angen trwydded yrru llawn, cyn dechrau'r lleoliad. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol iawn.

**Sut i wneud cais**

Er mwyn ymgeisio am y lleoliad gwaith hwn ar gyfer myfyriwr, anfonwch eich CV a llythyr yn egluro pam eich bod â diddordeb yn y lleoliad gwaith hwn. Byddwn hefyd angen geirda gan eich tiwtor. Anfonwch rhain i'r e-bost isod erbyn 10 Ionawr 2025.
Cynhelir cyfweliadau ar-lein yn ystod yr wythnos yn dechrau 27 Ionawr 2025.

**Cyswllt**

Alaw Ceris
Swyddog Ymgysylltu
wales@gwct.org.uk
07494476750